

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Prifysgol De Cymru

Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a Darparu Cymorth Ariannol

CYHOEDDWDYD YN UNOL Â GOFYNION RHEOLIADAU SAFONAU'R GYMRAEG
(RHIF 6) 2017

Cyhoeddwyd: Mehefin 2023

I'w adolygu: Mehefin 2024

Saron Jones-Hughes a Rebecca Bowen (Uned yr Iaith Gymraeg, Swyddfa Ysgrifennydd y
Brifysgol)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg | This document is available in English

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Cafodd Safonau Iaith eu gosod gan y Mesur ar sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae pum categori o Safonau:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu
- Safonau Hybu a
- Safonau Cadw Cofnodion

Mae'r Safonau'n amlinellu sut y dylai cyrff drin a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, ymdrin â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb, llunio polisiâu neu wrth ddarparu gwasanaethau'n fewnol i staff. Ceir mwy o wybodaeth yn [Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol](#). Mae'r gofynion hefyd yn ymdrin â dyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol gan y Brifysgol.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau â Safonau'r Gymraeg ac ymchwilio i gwynion ac achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r Comisiynydd yn gallu gosod camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Dyfarnu Grantiau a Darparu Cymorth Ariannol

Dyma'r Safonau perthnasol o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017:

Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. (Safon 75)

Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. (Safon 76)

Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). (Safon 76A)

Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). (Safon 78)

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. (Safon 79)

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol –

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar –

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar –

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar –

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Safon 100)*

Sut mae'r gofynion yn berthnasol i Brifysgol De Cymru?

Rhaid ystyried y gofynion uchod mewn unrhyw agwedd ar brosesau'r Brifysgol o ddyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol, boed hynny yn ystod y camau hyrwyddo, ymgeisio, cyfweld (lle bo hynny'n berthnasol), gwneud penderfyniadau, neu ddyfarnu'r grant neu gymorth ariannol ac unrhyw gamau dilynol gyda'r ymgeisydd.

Bydd glynu wrth y rhestr wirio a ddarperir (Atodiad 2) yn dangos eich bod wedi cydnabod ac wedi ymateb i'r angen i ystyried y Gymraeg. Felly, mae'n rhaid i broses llwyddiannus o ddyfarnu grantiau neu gymorth ariannol ym Mhrifysgol De Cymru:

- gyhoeddi'r holl ddeunydd yn Gymraeg
- parchu dewis iaith unigolion drwy gydol y broses ymgeisio
- nodi unrhyw effeithiau ar y Gymraeg (cadarnhaol, negyddol neu'r ddau)
- nodi ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg
- lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- gosod amodau ar unrhyw grant neu gymorth ariannol mewn perthynas â'r Gymraeg lle ystyrir bod angen gwneud hynny

Cwmpas y Gofynion

Os yw'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol ar ran corff arall (Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ac mae amodau a thelerau penodol y grant/cymorth ariannol yn cynnwys gofynion ynghylch y Gymraeg, yna bydd y polisi hwn yn berthnasol.

Os yw'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau/cymorth ariannol y mae'n eu hariannu yn uniongyrchol, yna bydd y polisi hwn yn berthnasol.

Os yw'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau/cymorth ariannol ar ran sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac nid oes amodau a thelerau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'u nodi yn y grant/cymorth ariannol, yna bydd y gofynion yn berthnasol os yw'r Brifysgol yn rhan o'r broses benderfynu mewn unrhyw ffordd.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r polisi hwn yn berthnasol i broses dyfarnu grantiau rydych yn ei rheoli - cysylltwch â **cymraeg@decymru.ac.uk** am gyngor pellach.

Beth yw grant neu gymorth ariannol?

Mae Cod Ymarfer (drafft) Safonau'r Gymraeg (Rheoliadau Rhif 6) a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn diffinio 'grant' fel a ganlyn:

"... Fel arfer, mae 'grant' yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd. 4.18.16 Mae'r term 'grant' yn cynnwys unrhyw gymorth y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Maent fel arfer yn cael eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol."

"Gall y term 'cymorth ariannol' gynnwys budd-dal, arian ysgoloriaeth, benthygiad, neu fwrsari fel rhai esiamplau ond nid yw'n cynnwys swm o arian sy'n cael ei roi i berson drwy broses gaffael."

Beth dylid ei gynnwys yn y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr?

Rydym yn awgrymu bod y canlynol yn cael ei gynnwys mewn canllawiau i ymgeiswyr:

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn gosod gofyniad statudol ar y Brifysgol i sicrhau bod yr holl grantiau a chymorth ariannol a ddyrannir ganddi yn ystyried a oes ffyrdd y gellid diwygio'r fenter i gynnwys effeithiau mwy cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, neu os gellid cynnwys camau i leihau effeithiau negyddol, neu eu hosgoi yn gyfan gwbl.

Wrth gydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn gofynnwn i chi, fel yr ymgeisydd, roi gwybod i ni drwy'r ffurflen gais sut y gallai eich menter effeithio ar y meysydd canlynol –

- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** e.e. myfyrwyr, staff, ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys darpar fyfyrwyr
- **effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg** e.e. addysg cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd astudio, cysylltiadau â [Strategaeth Cymraeg 2050](#) Llywodraeth Cymru
- **cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** e.e. statws yr iaith, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ar y campws, ac yn y gymuned. Anogwch a hyrwyddwch y defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser.
- **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Bydd y tîm/adran/gyfadran yn asesu eich atebion, yn gofyn cwestiynau pellach lle bo angen, neu byddant yn gosod amodau grant a fydd yn gofyn i chi gwblhau camau penodol i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.

Beth dylid ei gynnwys yn y telerau ac amodau?

Argymhellwn y dylid cynnwys y cymal canlynol ym mhob dogfen amodau a thelerau y mae'r Brifysgol yn ei darparu ar gyfer grantiau a chymorth ariannol.

Dyfernir y grant/cymorth ariannol hwn yn unol â gofynion ein Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a Chymorth Ariannol, a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

A phan fo hynny'n berthnasol:

**Er mwyn bodloni gofynion yr amodau a thelerau hyn rhaid i chi gydymffurfio â'r isod*

<<mewnosodwch amodau grant penodol mewn perthynas â'r Gymraeg>>

neu

- <<rhestr o gamau y mae'r ymgeisydd wedi'u nodi i sicrhau effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau negyddol (bydd y rhain wedi cael eu trafod yn ystod y cyfnod penderfynu).

>>

*Efallai y bydd hi'n briodol mewn rhai achosion gosod amod ar grant neu fathau o gymorth ariannol er mwyn sicrhau effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Gallai hyn fod mor syml â'i gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr arddangos arwyddion dwyieithog, cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn Gymraeg, neu fod gweithgareddau yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Dylai unrhyw ofynion adrodd ynghylch y defnydd o'r grant neu gymorth ariannol hefyd gynnwys gofyniad i adrodd ar yr effaith ar y Gymraeg.

Os oes angen cyngor pellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Uned Gymraeg:

cymraeg@decymru.ac.uk

Beth yw ystyr effaith?

Effaith negyddol neu andwyol

Mae effaith negyddol neu andwyol yn golygu y gallai'r fenter (neu ryw agwedd arni) yn cael effaith negyddol drwy leihau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, lleihau nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg, trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu beidio â hyrwyddo'r Gymraeg. Gall effaith negyddol fod yn gwbl anfwriadol ac efallai y daw i'r amlwg dim ond pan gynhelir ymchwil neu ymgynghoriad neu drwy ofyn am gyngor gan yr Uned Gymraeg. Ceir effaith negyddol hefyd pan fydd menter yn cael ei thynnu neu ni fydd yn parhau mwyach. Felly, dylid ystyried y materion hyn yn ystod y broses o wneud penderfyniad ynghylch cais.

Effaith positif

Gallai menter (neu ryw agwedd arni) gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os yw, er enghraifft, yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, os yw'n hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynyddu niferoedd neu ganran siaradwyr Cymraeg neu'n trin y Gymraeg yn fwy ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith/Dibwys

Ni rhagwelir y bydd y fenter (neu ryw agwedd arni) yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

ATODIAD 1 - Fframwaith Asesu Enghreifftiol

Cynghorir bod fframweithiau asesu yn cael eu diweddarau i gynnwys adran sy'n ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg. Ceir templed posib isod. Cysylltwch ag [Uned Gymraeg](#) y Brifysgol os oes angen cyngor a chymorth yn ystod y broses hon.

Cwestiwn	Disgrifiad byr
A yw'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio neu hyrwyddo'r Gymraeg?	
A yw'r ymgeisydd wedi nodi sut mae modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol?	
A yw'r panel eisiau nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu gamau a allai gynyddu effeithiau cadarnhaol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais?	
A yw'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw ffyrdd o leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?	
A yw'r panel eisiau nodi unrhyw effeithiau negyddol, neu gamau a allai leihau effeithiau negyddol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais?	
A yw'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio neu hyrwyddo'r Gymraeg?	
Os oes unrhyw effeithiau negyddol ar hyrwyddo neu ddefnyddio'r Gymraeg, sut byddan nhw'n cael eu lliniaru?	
Oes effeithiau negyddol sydd heb eu cofnodi yn y ffurflen gais y mae'r person sy'n gwneud y penderfyniad yn dymuno eu hystyried?	
A oes angen mwy o wybodaeth o'r ymgeisydd er mwyn gallu asesu'r effeithiau ar y Gymraeg?	
Cofnodwch yma unrhyw wybodaeth bellach a ddarperir gan yr ymgeisydd, os gofynnir amdani.	
Oes angen i ni osod amodau grant a fydd yn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg neu un a fydd yn lleihau effeithiau negyddol? <i>Os cofnodir amodau yma, mae'n rhaid eu cofnodi hefyd yn amodau a thelerau'r grant a rhaid i'r ymgeisydd gael gwybod amdanynt.</i>	

ATODIAD 2 – RHESTR WIRIO**Dyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol ym Mhrifysgol De Cymru**

Gofynnir i chi lenwi'r rhestr wirio isod wrth reoli proses dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar ran y Brifysgol, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

<p>Mae'r holl ddeunydd ar gyfer defnyddwyr ynghylch grantiau neu gymorth ariannol ar gael yn Gymraeg a chaiff unrhyw ddogfen ei chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ganllawiau, fframweithiau asesu ac amodau a thelerau.</p>	
<p>Mae'r datganiad i'r wasg/gwahoddiad/ffurflenni cais yn cynnwys y datganiad canlynol -</p> <p><i>Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg neu yn ddwyieithog ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</i></p> <p><i>You may submit an application in Welsh or bilingually and any application received in Welsh or bilingually will not be treated less favourably than an application made in English.</i></p>	
<p>Mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys ar y ffurflen gais Saesneg (lle ceir fersiwn ar wahân i'r un Gymraeg).</p> <p><i>Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg</i></p> <p><i>This document is available in Welsh</i></p>	
<p>Pan fo cyfeiriad e-bost neu rhif ffôn yn cael ei gynnig fel pwynt cyswllt, mae'r frawddeg ganlynol wedi ei chynnwys yn y poster, yr e-bost neu'r hysbysiad cyhoeddus.</p> <p><i>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</i></p> <p><i>We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to a delay.</i></p>	
<p>Mae'r ffurflen gais yn cynnwys y cwestiwn gorfodol canlynol i annog yr ymgeisydd i ystyried effaith y fenter ar y Gymraeg:</p> <p><i>Rhowch wybod i ni:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Sut byddai'r grant neu'r cymorth ariannol yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu i hybu'r iaith (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?</i> 	

<ul style="list-style-type: none"> • <i>Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?</i> <p><i>Please let us know:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>How will the grant or financial assistance impact on opportunities for people to use and promote the Welsh language (positive or negative) and does awarding the grant or financial assistance treat the Welsh language less favourably than the English language in any way?</i> • <i>How could positive impacts be increased, or negative impacts be decreased?</i> 	
<p>Yn ystod y broses asesu rydych chi wedi ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych chi'n teimlo y gallai'r grant effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (cadarnhaol neu negyddol) ac a yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd? • Sut mae modd cynyddu'r effaith gadarnhaol, neu sut gallai effeithiau negyddol gael eu lleihau? 	
<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod i ofyn cwestiynau pellach mewn perthynas â'r cais rydych wedi cynnwys y datganiad canlynol (p'un a yw'n gyfarfod ar-lein neu wyneb yn wyneb):</p> <p><i>Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os ydych yn dymuno gwneud hyn, rhowch wybod i ni erbyn xx/xx/xx.</i></p> <p><i>You are welcome to use Welsh at the meeting. If you wish to do, please let us know by xx/xx/xx.</i></p>	
<p>Mae Cyfieithu ar y Pryd wedi'i drefnu mewn ymateb i gais gan ymgeisydd i siarad Cymraeg yn y cyfarfod.</p> <p>E-bostiwch translations@southwales.ac.uk i drefnu'r gwasanaeth hwn, gan atodi'r ffurflen gais perthnasol.</p> <p>Noder: Does dim angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd lle na chafwyd ymateb i gynnig rhagweithiol. Gallwch hefyd drefnu i'r cyfarfod gael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg gan staff o'ch tîm/adran/gyfadran sy'n siarad Cymraeg.</p>	
<p>Rydych wedi ystyried gosod amodau i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.</p>	
<p>Rydych yn parchu dewis iaith yr ymgeisydd yn ystod y broses.</p>	